Rhif: WG54114

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

# Papur Gwyrdd:

# Llunio Dyfodol Llywodraethiant Dŵr yng Nghymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2026
ISBN Digidol 978-1-80853-347-1

Gorffennaf 2026

**Trosolwg**
Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd: Llunio Dyfodol Llywodraethiant Dŵr yng Nghymru

**Y Camau i'w Cymryd**
Dim. Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

**Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig**
Gellir gwneud cais am y ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

**Manylion cyswllt**
Am ragor o wybodaeth:
Y Gangen Ddŵr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: EtifeddiaethMwyngloddioDwrLlifogydd@llyw.cymru

**Copïau ychwanegol**
Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Dogfennau cysylltiedig**
Papur Gwyrdd: Llunio Dyfodol Llywodraethiant Dŵr yng Nghymru.

Y Comisiwn Dŵr Annibynnol: adolygiad o'r sector dŵr

**Cynnwys**


Cyflwyniad ........ 5
Ymgynghori ........ 6
Meysydd cytundeb cyffredinol a nodwyd yn yr ymatebion ........ 6
Y Camau Nesaf ........ 7
Pennod 2: Cynllunio Gyda'n Gilydd ar gyfer System Ddŵr Wydn yng Nghymru ........ 13
Pennod 3: Moderneiddio ein Fframwaith Deddfwriaethol yng Nghymru ........ 16
Pennod 4: Cryfhau Rheoleiddio ac Atebolrwydd Dŵr Cymru ........ 19
Pennod 5: Sicrhau Canlyniadau Gwell - Diwygio Rheoleiddio yng Nghymru ........ 21
Pennod 6: Sicrhau Llywodraethiant Cryf a Chyfrifol ar gyfer Cwmnïau Dŵr yng Nghymru ........ 25
Pennod 7: Adeiladu Seilwaith Dŵr Gwydn ac Asedau Dŵr Iach i Gymru ........ 27
Pennod 8: Sicrhau Newid - Y Cyfnod Pontio a Gweithredu yng Nghymru ........ 29

**Cyflwyniad**
Ar 3 Chwefror 2026, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru Bapur Gwyrdd: Llunio Dyfodol Llywodraethiant Dŵr yng Nghymru. Pwrpas y Papur Gwyrdd oedd ceisio barn ar ddyfodol llywodraethiant dŵr yng Nghymru. Roedd yn nodi ymateb y Llywodraeth flaenorol i argymhellion y Comisiwn Dŵr Annibynnol a rhoddodd gyfle i'r cyhoedd lywio cyfeiriad polisi a deddfwriaeth yn y dyfodol. Gofynnodd sut y dylid gosod a chyfleu blaenoriaethau hirdymor ar gyfer dŵr; sut i integreiddio cynllunio yn well ar draws sectorau sy'n ymwneud â dŵr; am farn ar greu rheoleiddiwr dŵr economaidd i Gymru; sut i wella offer rheoleiddio; sut i gryfhau atebolrwydd a sut i wella iechyd asedau hirdymor a chynllunio buddsoddi.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd drwy'r ffurflen ar-lein a thrwy e-bost i'r Blwch Post Tîm Strategaeth a Newid. Er nad yw'n bosibl cyfleu pob sylw unigol a ddaeth i law, mae'r holl ymatebion wedi'u hadolygu ac yn cael eu hystyried gan dimau ledled Llywodraeth Cymru i lywio'r broses o ddatblygu a chyflawni polisi yn y dyfodol.

**Ymgynghori**
Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori dros gyfnod o ddau fis rhwng 3 Chwefror a 7 Ebrill 2026. Cafwyd 92 o ymatebion i gyd, 58 drwy'r ffurflen ar-lein a 34 drwy e-bost. Yn yr un modd ag unrhyw ymgynghoriad, mae'r themâu a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu barn y rhai a ddewisodd ymateb a dylid eu hystyried ym mhroffil yr ymatebwyr.

Mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu trin fel rhai dienw yn ddiofyn ac mae data personol wedi'u dileu cyn cyhoeddi, oni bai bod ymatebwyr yn gofyn yn benodol fel arall.

Mae manylion yr ymatebion yn cael eu dangos yn y tabl isod:

| Math o Ymatebydd | Nifer |
|---|---|
| Aelod o’r Cyhoedd | 31 |
| Y Trydydd Sector | 18 |
| Busnes | 14 |
| Rheoleiddiwr / Corff Cyhoeddus Statudol | 10 |
| Corff Proffesiynol / Diwydiant | 7 |
| Awdurdod Lleol | 4 |
| Amaethyddiaeth | 4 |
| Undeb Llafur | 2 |
| Corff / Partneriaeth Iechyd y Cyhoedd | 2 |

**Meysydd cytundeb cyffredinol a nodwyd yn yr ymatebion**
Yn gyffredinol, croesawodd ymatebwyr y cyfle i wneud sylwadau ar gyfeiriad llywodraethiant dŵr yng Nghymru yn y dyfodol. Gwnaeth pob pennod o'r ymgynghoriad ennyn ymateb cryf gan yr ymatebwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r angen am ddiwygio ac yn **cytuno'n fras â'r cyfeiriad** a nodir yn y Papur Gwyrdd, yn enwedig lle roedd cynigion yn anelu at **wella canlyniadau amgylcheddol**, **diogelu iechyd y cyhoedd** a **chryfhau atebolrwydd**.

Pwysleisiodd ymatebwyr yn gyson **bwysigrwydd sicrhau bod diwygio yn arwain at welliant diriaethol** ar lawr gwlad. Thema a ailadroddwyd oedd yr angen i symud y tu hwnt i strategaethau a chynlluniau tymor hir tuag at **gyflawni cliriach, gorfodi cryfach a mwy o dryloywder**. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at bryderon parhaus am **iechyd afonydd, gollyngiadau carthion ac ansawdd dŵr gwael**, fel tystiolaeth nad yw'r fframweithiau presennol wedi cyflawni'r canlyniadau y mae cymunedau yn eu disgwyl eto.

Ar draws pob cwestiwn, roedd ymatebwyr yn cydnabod **cymhlethdod y system ddŵr** a'r angen i **gydbwyso uchelgais amgylcheddol gyda fforddiadwyedd, gwydnwch a chapasiti cyflawni**. Roedd pwyslais cryf ar **gymesuredd**, **cymryd camau ystyrlon** a phwysigrwydd **cynnal sefydlogrwydd rheoleiddiol yn ystod y cyfnod pontio**, gan sicrhau nad yw diwygio yn peri oedi o ran camau gweithredu pan fo niwed eisoes yn digwydd.

**Y Camau Nesaf**

Mae'r ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad wedi cadarnhau'r angen i greu system ddŵr sy'n cyflawni ar gyfer pobl ac amgylchedd Cymru. Mae hwn yn bwnc lle mae rhanddeiliaid yn amlwg yn wybodus, yn angerddol, ac eisiau gweld gwelliannau gwirioneddol i amgylchedd Cymru. Rydym am adeiladu ar hyn a byddwn yn defnyddio'r ymatebion a ddaeth i law i barhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid a datblygu ein cynigion polisi.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o’r ymatebion a ddaeth i law. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymateb polisi i'r penodau hyn ar wahân maes o law.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod Bil Dŵr Glân y DU, a gyhoeddwyd yn Araith y Brenin yn gynharach eleni, yn sicrhau bod y pwerau sydd eu hangen yn cael eu datganoli er mwyn creu llwyfan ar gyfer diwygiadau yng Nghymru a fydd yn cael eu cyflawni drwy ddeddfwriaeth ddilynol Cymru.

Yn dilyn gwaith ymgysylltu ychwanegol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Papur Gwyn a fydd yn cynnwys cyfeiriad polisi manwl cyn deddfwriaeth Cymru yn y dyfodol.

**Dadansoddiad o themâu ymatebion**

**Pennod 1 - Ein Cyfeiriad Strategol ar gyfer Dŵr yng Nghymru**
Roedd Pennod 1 yn gofyn am farn ar gryfhau'r cyfeiriad strategol ar gyfer dŵr yng Nghymru, gan gynnwys cynigion i adnewyddu'r Strategaeth Ddŵr a diweddaru fframweithiau polisi strategol. Gofynnodd i'r ymatebwyr ystyried sut y dylid diffinio a chyflawni blaenoriaethau hirdymor, a sut y gellir sicrhau mwy o gysondeb â blaenoriaethau Cymru.

**Cwestiwn 1:** Pa ffactorau neu feysydd blaenoriaeth y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried wrth bennu cyfeiriad strategol y system ddŵr yng Nghymru?

Y prif feysydd blaenoriaeth y tynnwyd sylw atynt gan ymatebwyr oedd:
- Llygredd carthion a gorlifoedd storm,
- Iechyd y cyhoedd a dŵr diogel,
- Tryloywder ac atebolrwydd,
- Llygredd/maethynnau amaethyddol,
- Seilwaith a buddsoddiad,
- Newid hinsawdd a gwydnwch,
- Fforddiadwyedd a thegwch.

**Blaenoriaeth 1: Llygredd carthion a gorlifoedd storm**
Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn tynnu sylw at y mater hwn fel blaenoriaeth, gyda galwadau dro ar ôl tro i roi terfyn ar ollyngiadau carthion i afonydd, moroedd, a dyfroedd ymdrochi, ac i flaenoriaethu lleihau gorlifoedd storm fel mater amgylcheddol a llywodraethiant brys.

Y prif ffynonellau llygredd y tynnwyd sylw atynt fel meysydd sy'n peri pryder oedd:
- Carthion a dŵr gwastraff e.e. Gollyngiadau carthion i afonydd a moroedd; gorlifoedd storm (CSOs); gollyngiadau, methiannau wrth drin dŵr gwastraff; materion rhwydwaith carthffosiaeth; gollyngiadau anghyfreithlon neu ormodol;
- Llygredd amaethyddol e.e. dŵr ffo o faethynnau (nitrogen, ffosfforws); gwasgaru slyri a thail; effeithiau da byw/godro; llygredd gwledig gwasgaredig; dŵr ffo o'r pridd o dir fferm;
- Dŵr ffo/draenio/seilwaith trefol e.e. dŵr ffo wyneb o ffyrdd ac ardaloedd trefol; systemau draenio; materion capasiti carthffosydd; dŵr ffo o briffyrdd; pwysau carthffosydd cyfun; seilwaith sy'n heneiddio;
- Diwydiannol/cemegol e.e. gollyngiadau diwydiannol; cemegau (e.e. PFAS, bioladdwyr); microblastigau; cynhyrchion fferyllol; halogiad o brosesau gweithgynhyrchu neu wastraff.

**Blaenoriaeth 2: Effeithiau ar iechyd y cyhoedd a dŵr hamdden diogel**
Cysylltodd ymatebwyr ansawdd dŵr yn benodol â salwch, effeithiau ar lesiant, a mynediad diogel ar gyfer nofio a hamdden, gan ystyried **dŵr glân fel amcan craidd iechyd y cyhoedd** yn hytrach na budd amgylcheddol eilaidd.

**Blaenoriaeth 3: Tryloywder, atebolrwydd a rheoleiddio**
Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd yr angen am atebolrwydd cryfach **gan gwmnïau dŵr, llygrwyr a rheoleiddwyr**. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod angen rolau

rheoleiddio cliriach, **data agored sydd ar gael am ddim,** ac **adroddiadau hygyrch** i ailadeiladu ymddiriedaeth yn y sector dŵr a galluogi gwaith gorfodi.

**Blaenoriaeth 4: Llygredd / maethynnau amaethyddol**
Tynnodd nifer o ymatebion sylw at yr angen am **ddulliau integredig o reoli llygredd o ffynonellau amaethyddol** yn hytrach na chamau gweithredu ar wahân. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod **ffermwyr yn cael eu cefnogi i leihau eu heffaith** ar ansawdd dŵr ac i'w helpu i gadw adnoddau dŵr. Teimlwyd bod angen i'r rheoleiddiwr newydd sicrhau nad oes anghydbwysedd mewn gorfodi ac atebolrwydd. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr angen i orfodi fod yn gyson ar draws pob sector a'i weithredu'n gyfartal i gwmnïau dŵr a llygrwyr eraill.

**Blaenoriaeth 5: Seilwaith a buddsoddiad**
Mewn nifer o ymatebion tynnwyd sylw bod angen **cynlluniau buddsoddi hirdymor i ddiweddaru a moderneiddio'r seilwaith sy'n heneiddio** yng Nghymru ac y bydd hynny hefyd yn helpu i atal llygredd o ollyngiadau carthion. Nododd rhai ymatebion y dylai buddsoddiad hefyd gyd-fynd â phryderon amgylcheddol a diogelu bioamrywiaeth.

**Blaenoriaeth 6: Newid hinsawdd a gwydnwch**
Gwnaeth nifer o ymatebion bwysleisio y dylai unrhyw flaenoriaethau gydnabod y gofynion newidiol oherwydd **pwysau hinsawdd a hyfywedd glawiad.** Yn ogystal, awgrymwyd y dylid **annog y defnydd o asedau dŵr ar gyfer prosiectau ynni gwyrdd** e.e. defnyddio asedau ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel. Gwnaeth rhai ymatebion dynnu sylw y dylid rhoi mwy o bwyslais ar **fesurau effeithlonrwydd ac ailddefnyddio dŵr** a bod angen gwneud gwell defnydd o ddŵr llwyd.

**Blaenoriaeth 7: Fforddiadwyedd a thegwch**
Y thema gyffredin y tynnwyd sylw ati oedd yr angen am **well gwasanaeth cwsmeriaid** a sicrhau **costau tecach i gwsmeriaid**.

**Cwestiwn 2:** Beth yw'r ffordd orau i'r Fforwm Adolygu Prisiau a Datganiad Gweinidogol posibl o Flaenoriaethau'r Diwydiant Dŵr gefnogi tryloywder a chyflawni effeithiol? Os caiff ei gyflwyno, pa flaenoriaethau ddylai Datganiad Gweinidogol o Flaenoriaethau'r Diwydiant Dŵr eu cynnwys?

Nododd ymatebwyr nifer o flaenoriaethau y gellid eu cynnwys mewn Datganiad Gweinidogol o Flaenoriaethau'r Diwydiant Dŵr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gwelliannau amgylcheddol sy'n seiliedig ar ganlyniadau;
- Tryloywder drwy ddata agored;
- Atebolrwydd, sancsiynau a gorfodi;
- Tegwch a fforddiadwyedd;
- Eglurder o ran llywodraethiant/Datganiad Gweinidogol o Effeithiolrwydd Blaenoriaethau'r Diwydiant Dŵr;
- Cydweithio a chynhwysiant.

**Blaenoriaeth 1: Gwelliannau amgylcheddol sy'n seiliedig ar ganlyniadau**
Pwysleisiodd yr ymatebion fod yn rhaid asesu cyflawni drwy **ganlyniadau amgylcheddol mesuradwy**, nid drwy gydymffurfedd â phrosesau yn unig. Roedd

ymatebwyr o'r farn y dylai hyn gynnwys lleihad o ran gollyngiadau carthion, gwell ansawdd afonydd a dyfroedd ymdrochi, ac adferiad ecolegol gweladwy o fewn amserlenni diffiniedig.

**Blaenoriaeth 2: Tryloywder drwy ddata agored, hygyrch**
Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr fod **angen cyhoeddi data sylfaenol, rhagdybiaethau a rhesymeg penderfyniadau er mwyn sicrhau tryloywder**. Roedd yr ymatebion yn aml yn galw am ddangosfyrddau, setiau data agored, ac adroddiadau amser real sy'n ddealladwy i bobl nad ydynt yn arbenigwyr.

**Blaenoriaeth 3: Atebolrwydd, sancsiynau a gorfodi**
Roedd teimlad cryf gan y mwyafrif o'r ymatebwyr bod angen **canlyniadau clir ar gyfer tangyflawni**, gan gynnwys dirwyon, sancsiynau, sbardunau ymyrraeth, a phwerau rheoleiddio cryfach, yn enwedig mewn perthynas â llygredd carthion.

**Blaenoriaeth 4: Tegwch a fforddiadwyedd**
Roedd ymatebwyr yn teimlo y **dylid trin pob llygrwr yn deg**, **y dylid gosod ac adolygu blaenoriaethau yn annibynnol**, **y dylai prisiau fod yn deg** ac y dylid **diogelu cwsmeriaid agored i niwed**. Awgrymodd yr ymatebion pan fod gwrthdaro rhwng pryderon amgylcheddol a fforddiadwyedd y dylai cwmnïau dŵr nodi eu rhesymeg yn glir.

**Blaenoriaeth 5: Eglurder o ran llywodraethiant / Datganiad Gweinidogol o effeithiolrwydd Blaenoriaethau'r Diwydiant Dŵr**
Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai'r Datganiad Gweinidogol o Flaenoriaethau'r Diwydiant Dŵr fod **yn annibynnol** gyda set glir o **flaenoriaethau â therfyn amser** gydag esboniad clir o'r blaenoriaethau a'r hyn y maent yn anelu at ei gyflawni.

**Blaenoriaeth 6: Cydweithio a chynhwysiant**
Roedd pwyslais cryf ar waith **ymgysylltu lleol** i ennyn dealltwriaeth o faterion lleol. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod angen **annibyniaeth** wrth bennu blaenoriaethau sydd ag **esboniadau clir**, sy'n **dryloyw** a bod angen adolygu'r blaenoriaethau yn **rheolaidd**.

**Cwestiwn 3:** Pa gerrig milltir neu fecanweithiau adolygu y dylid eu cynnwys yn y cyfeiriad strategol i sicrhau atebolrwydd a chysondeb â blaenoriaethau Cymru?

Nododd yr ymatebwyr nifer o feysydd y dylid eu hystyried er mwyn sicrhau atebolrwydd a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau Gweinidog Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cerrig milltir clir, â therfyn amser sy'n cyd-fynd â chylchoedd adolygu;
- Adroddiadau cyhoeddus rheolaidd, tryloyw;
- Craffu a goruchwylio annibynnol;
- Canlyniadau am fethu â chyrraedd cerrig milltir;
- Monitro llygredd carthion, ansawdd dŵr a chanlyniadau amgylcheddol;
- Adolygu canlyniadau iechyd y cyhoedd;
- Tryloywder ac adroddiadau rheolaidd.

**Mecanwaith 1: Cerrig milltir clir, â therfyn amser sy'n cyd-fynd â chylchoedd adolygu**
Pwysleisiodd ymatebwyr yn gyson yr angen am gerrig milltir wedi'u **diffinio'n glir** ac â therfyn amser (yn aml gorwelion 5, 10 a 25 mlynedd) **sy'n cyd-fynd ag adolygiadau prisiau** a **chylchoedd buddsoddi**. Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn hanfodol i osgoi drifft strategol a sicrhau atebolrwydd.

**Mecanwaith 2: Adroddiadau cyhoeddus rheolaidd, tryloyw**
Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr yr angen am **adroddiadau cyhoeddus aml, hygyrch** (blynyddol neu fwy aml) fel y gall cymunedau, rhanddeiliaid a chwsmeriaid olrhain, deall a chraffu ar gynnydd.

**Mecanwaith 3: Craffu a goruchwylio annibynnol:**
Nodwyd dro ar ôl tro bod angen mecanweithiau adolygu annibynnol er mwyn sicrhau **hygrededd, ailadeiladu ymddiriedaeth, ac atal diffyg twf polisi**. Mae ymatebwyr yn cyfeirio at archwilwyr, rheoleiddwyr, neu gyrff goruchwylio newydd.

**Mecanwaith 4: Canlyniadau am fethu â chyrraedd cerrig milltir**
Roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen i ganlyniadau methiant i gyrraedd y cerrig milltir y cytunwyd arnynt fod yn **deg ac yn gymesur yn ogystal ag yn gyson** i'r holl lygrwyr. Os oes methiant i gyrraedd carreg filltir, yna mae angen **esboniad cyhoeddus**, **ymyrraeth reoleiddiol**, ac ailflaenoriaethu buddsoddiad i gyd-fynd â hynny.

**Mecanwaith 5: Monitro llygredd carthion, ansawdd dŵr a chanlyniadau amgylcheddol**
Roedd ffocws cryf ar **leihau gollyngiadau carthion** ac angen **gwella seilwaith sy'n heneiddio**. Teimlwyd y byddai hyn yn gwella ansawdd dŵr yfed a'r defnydd hamdden o ddŵr.

**Mecanwaith 6: Adolygu canlyniadau iechyd y cyhoedd**
Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai diogelu iechyd y cyhoedd fod yn sail i bopeth o ansawdd dŵr yfed, ansawdd dŵr ymdrochi ac ansawdd dŵr amgylcheddol. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylid canolbwyntio ar **welliannau cyson a pharhaus** i ansawdd dŵr.

**Mecanwaith 7: Tryloywder ac adroddiadau rheolaidd**
Roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o dryloywder o fewn y sector dŵr gyda phrofion rheolaidd ac esboniadau ar gael i'r cyhoedd. Drwy gael mwy o dryloywder, mae ymatebwyr yn credu y bydd hyn yn helpu i ennyn ymddiriedaeth a sicrhau rheoleiddio teg.

**Crynodeb o’r Ymatebion i Bennod 1:**
Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r angen am gyfeiriad strategol cliriach a mwy cyson ar gyfer y system ddŵr yng Nghymru. Thema gyffredin oedd y dylid trin diogelu'r amgylchedd, ac iechyd y cyhoedd fel amcanion craidd, yn hytrach nag ystyriaethau eilaidd ochr yn ochr â fforddiadwyedd neu gyfleustra cyflawni. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at bryderon parhaus am iechyd afonydd, ansawdd dŵr arfordirol, gollyngiadau carthion a llygredd maethynnau fel tystiolaeth nad yw'r strategaethau presennol eto wedi troi'n welliant digonol ar lawr gwlad.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cefnogi'r defnydd o offer strategol fel y Fforwm Adolygu Prisiau a Datganiad Gweinidogol posibl o Flaenoriaethau'r Diwydiant Dŵr i wella tryloywder a chefnogi gwaith cyflawni, ar yr amod bod y mecanweithiau hyn yn canolbwyntio ar ganlyniadau mesuradwy yn hytrach na dangos arwyddion lefel uchel. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd blaenoriaethau clir, aliniad ar draws rheoleiddwyr ac atebolrwydd am gyflawni.

Ochr yn ochr â'r gefnogaeth hon, tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at natur systemig yr heriau sy'n wynebu'r system ddŵr, gan gynnwys newid hinsawdd, twf poblogaeth ac asedau sy'n heneiddio. Roedd pwyslais cryf ar yr angen am gerrig milltir rheolaidd, adroddiadau tryloyw a gwaith craffu annibynnol i sicrhau bod tanberfformiad yn cael ei nodi a'i ddatrys, yn hytrach na'i oedi ar draws cylchoedd adolygu hir.

## Pennod 2: Cynllunio Gyda'n Gilydd ar gyfer System Ddŵr Wydn yng Nghymru

**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cefnogi sefydlu Swyddogaeth Cynllunio System Genedlaethol ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru? Ble ddylai fod, o fewn y rheoleiddiwr economaidd newydd, fel corff annibynnol, neu wedi'i integreiddio i swyddogaethau eraill Llywodraeth Cymru neu gyrff hyd braich?

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn gefnogol i'r syniad o Swyddogaeth Cynllunio System Genedlaethol ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru. Roedd tair thema glir yn yr ymatebion:

**Thema 1: Cefnogaeth ar gyfer cynllunio system gyfan genedlaethol**
Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn **cefnogi creu swyddogaeth Cynllunio System Genedlaethol**, gan fod llywodraethiant dŵr presennol yn cael ei ystyried yn dameidiog ac yn ddiffygiol o ran ei ddull cydlynol, hirdymor, system gyfan sy'n cwmpasu cyflenwad, dŵr gwastraff, dalgylchoedd, a gwydnwch.

**Thema 2: Annibyniaeth ac amddiffyniad rhag pwysau tymor byr**
Roedd yr ymatebion yn glir bod yn rhaid i swyddogaeth cynllunio system gael ei **inswleiddio rhag pwysau gwleidyddol, ariannol neu ddiwydiant** i barhau i fod yn gredadwy, yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac yn amgylcheddol gadarn.

**Thema 3: Lle y dylai'r swyddogaeth gael ei leoli (lleoliad llywodraethiant)**
Roedd y safbwyntiau yn wahanol o ran y lleoliad sefydliadol. Roedd llawer o blaid **ymgorffori'r** swyddogaeth o fewn rheoleiddiwr economaidd newydd er mwyn dylanwadu ar fuddsoddiad, tra bod eraill yn dadlau dros gorff **cwbl annibynnol** neu gorff cysylltiedig â Llywodraeth Cymru er mwyn osgoi rhagfarn economaidd.

**Cwestiwn 5:** Sut dylai cylchoedd cynllunio buddsoddi'r diwydiant dŵr (e.e. 5, 10 a 25 mlynedd) gydbwyso fforddiadwyedd, gwydnwch a blaenoriaethau amgylcheddol?

Nododd ymatebwyr sut yr oeddent yn teimlo y gallai cylchoedd cynllunio'r diwydiant dŵr gydbwyso eu blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Daeth dwy thema glir i'r amlwg:

**Thema 1: Diogelu'r amgylchedd fel blaenoriaeth nad yw'n agored i drafodaeth**
Dywedodd llawer o ymatebwyr yn benodol y **dylai diogelu'r amgylchedd gael blaenoriaeth dros fforddiadwyedd** ac ystyriaethau eraill. Mae ymatebwyr yn gweld gwelliant amgylcheddol fel **angenrheidrwydd cyfreithiol, moesol a hirdymor**, nid gwelliant disgresiynol y gellir ei ohirio yn sgil pryderon am gost.

**Thema 2: Defnyddio cylchoedd cynllunio 5 / 10 / 25 mlynedd at wahanol ddibenion**
Roedd ymatebwyr yn cefnogi'n gryf gorwelion cynllunio gwahaniaethol, gyda chylchoedd 5 mlynedd yn canolbwyntio ar gamau gweithredu cyflawnadwy, cylchoedd 10 mlynedd ar wydnwch ac atebion ehangu, a chylchoedd 25 mlynedd ar drawsnewid y system yn yr hirdymor. Roedd ymatebion yn glir bod y gwerth **yn deillio o aliniad ar draws amserlenni**, nid dibynnu ar un gorwel.

**Cwestiwn 6:** Beth, yn eich barn chi, yw'r gwerth ychwanegol y gallai dull cynllunio system ei gynnig? Beth fyddai eich blaenoriaethau ar gyfer ei weithredu yng Nghymru?

Yn gyffredinol, cytunodd ymatebwyr y byddai dull cynllunio system yn ychwanegu gwerth yng Nghymru. Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai'n:

- Gwella cydgysylltu ac integreiddio;
- Cyflwyno gwell cynllunio a gwybodaeth ar sail dalgylchoedd;
- Helpu i ddatblygu data, tystiolaeth a safonau mwy cadarn.

**Blaenoriaeth 1: Gwell cydgysylltu ac integreiddio ar draws sectorau**
Dywedodd llawer o ymatebwyr mai gwerth ychwanegol craidd cynllunio system fyddai **cydgysylltu gwell** ar draws cwmnïau dŵr, rheoleiddwyr, awdurdodau cynllunio, amaethyddiaeth, defnydd tir, rheoli llifogydd a rheoleiddio amgylcheddol. Roedd ymatebion yn cyferbynnu'n benodol dulliau integredig â darnio cyfredol, gwneud penderfyniadau ar wahân, ac ymdrech ddyblyg.

**Blaenoriaeth 2: Cyflwyno gwell cynllunio a gwybodaeth ar sail dalgylchoedd**
Nododd ymatebwyr yn aml ac yn bendant **fod cynllunio ar raddfa dalgylchoedd yn hanfodol**. Cyflwynir dalgylchoedd fel yr uned weithredol gywir ar gyfer cysylltu effeithiau i fyny'r afon ac i lawr yr afon, rheoli pwysau cronnus, a blaenoriaethu buddsoddiad. Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai dull sy'n fwy seiliedig ar ddalgylchoedd yn golygu mwy o wybodaeth leol.

**Blaenoriaeth 3: Helpu i ddatblygu data, tystiolaeth a safonau mwy cadarn**
Gwnaeth ymatebwyr dynnu sylw at yr angen am **ddata cyson** yn ogystal â **phlatfformau tystiolaeth a rennir**, **safonau monitro cyffredin** a gwaith **modelu tryloyw**. Tynnodd ymatebwyr sylw at fylchau mewn cofnodion, setiau data anghyson, a diffyg asesiad cronnus fel gwendidau cyfredol.

**Cwestiwn 7:** Sut dylid rheoli'r berthynas drawsffiniol â Lloegr?

Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai'r berthynas drawsffiniol gael ei rheoli gan y canlynol:

- Llywodraethiant trawsffiniol ffurfiol, strwythuredig,
- Diogelu safonau a blaenoriaethau Cymru
- Rheoli ar sail dalgylchoedd.

**Thema 1: Angen llywodraethiant trawsffiniol ffurfiol, strwythuredig**
Ar draws yr holl fathau o ymatebwyr, roedd galwad gyson am reoli **perthnasau dŵr trawsffiniol** drwy **drefniadau llywodraethiant ffurfiol, tryloyw ac atebol**. Pwysleisiodd ymatebwyr nad yw arferion anffurfiol neu hanesyddol yn ddigonol ar gyfer rheoli dalgylchoedd, seilwaith a risgiau a rennir, yn enwedig yn ystod cyfnodau o ddiwygio neu drawsnewid. Nodir yn aml fod angen **protocolau ffurfiol**, **memoranda cyd-ddealltwriaeth**, a **mecanweithiau statudol** er mwyn osgoi bylchau mewn atebolrwydd.

**Thema 2: Diogelu safonau, blaenoriaethau a gwneud penderfyniadau yng Nghymru**
Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr na ddylai cydweithredu â Lloegr wanhau safonau amgylcheddol, mesurau diogelu iechyd y cyhoedd, na blaenoriaethau polisi yng Nghymru. Roedd pryder y gallai aliniad arwain at weithredu arafach neu ganlyniadau gwannach os yw penderfyniadau yng Nghymru yn cael eu cyfyngu gan fframweithiau rheoleiddio Lloegr. Mae'r ymatebwyr yn tanlinellu'n gyson bod **yn rhaid i Gymru gadw'r gallu i arwain a gosod safonau uwch** lle bo angen.

**Thema 3: Rheoli ar sail dalgylchoedd sy'n adlewyrchu systemau naturiol**
Dywedodd ymatebwyr dro ar ôl tro nad yw afonydd a systemau dŵr yn dilyn ffiniau gweinyddol. O ganlyniad, roeddent yn teimlo y **dylid trefnu gwaith rheoli ar lefel dalgylchoedd, gydag amcanion a gwaith cynllunio a rennir ar draws ffiniau**. Cyfeiriwyd yn aml at afonydd trawsffiniol penodol fel Gwy, Hafren, a Dyfrdwy fel afonydd sydd angen llywodraethiant cydgysylltiedig ar lefel dalgylchoedd.

**Crynodeb o'r Ymatebion i Bennod 2:**
Roedd cefnogaeth eang i ddull system gyfan fwy cydgysylltiedig o gynllunio dŵr yng Nghymru. Disgrifiodd llawer o ymatebwyr y trefniadau presennol fel rhai tameidiog ac sy'n canolbwyntio'n ormodol ar asedau neu sefydliadau unigol yn hytrach na pherfformiad cyffredinol y system. Roedd cefnogaeth eang i Swyddogaeth Cynllunio System Genedlaethol lle byddai'n helpu i integreiddio dŵr gwastraff, cyflenwad dŵr, draenio, afonydd, defnydd tir a'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd.

Er bod safbwyntiau yn wahanol o ran lle y dylai swyddogaeth o'r fath gael ei lleoli, roedd ymatebwyr yn cytuno yn gyffredinol bod rhaid i gynllunio system gael dylanwad ystyrlon ar benderfyniadau a chyflawni, yn hytrach na gweithredu mewn rôl gynghori yn unig. Roedd cydgysylltu gwell, defnydd gwell o ddata a blaenoriaethu buddsoddiad yn gliriach yn fanteision y cyfeiriwyd atynt yn aml, ochr yn ochr â newid tuag at atal a gwydnwch tymor hir.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cefnogi gorwelion cynllunio buddsoddiad lluosog, gan gydnabod rôl cylchoedd pum mlynedd wrth fynd i'r afael â risgiau uniongyrchol a chylchoedd tymor hwy wrth gefnogi addasu i'r hinsawdd ac adnewyddu asedau. Cafodd fforddiadwyedd ei gydnabod fel ystyriaeth bwysig, er bod llawer o ymatebwyr wedi rhybuddio rhag defnyddio fforddiadwyedd i gyfiawnhau peri oedi o ran gweithredu pan fo niwed amgylcheddol eisoes yn digwydd. Derbyniodd ymatebwyr yr angen am gydweithredu â Lloegr ar systemau a rennir, gan bwysleisio y dylid cynnal blaenoriaethau a safonau Cymru.

**Pennod 3: Moderneiddio ein Fframwaith Deddfwriaethol yng Nghymru**

Roedd cefnogaeth eang i ddiweddaru'r Fframwaith Deddfwriaethol yng Nghymru, a fyddai'n arwain at flaenoriaethau yn cael eu hystyried ac atal llygredd yn weithredol yn hytrach na'i reoli yn unig fel y teimlir sy'n digwydd o dan y fframwaith presennol.

**Cwestiwn 8:** Ydych chi'n cytuno bod angen diwygio'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer dŵr yng Nghymru? Pa feysydd y dylid eu blaenoriaethu i'w hadolygu, a pham?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen diwygio'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer dŵr yng Nghymru. Fe wnaethant nodi ystod o faterion yr oeddent yn teimlo eu bod yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y fframwaith, gyda'r themâu canlynol yn dod i'r amlwg fel blaenoriaethau i'w hadolygu.

**Thema 1: Gorfodi ac atebolrwydd**
Dywedodd llawer o ymatebwyr fod y fframwaith presennol yn methu nid oherwydd diffyg rheolau, ond oherwydd bod gwaith **gorfodi yn wan, yn anghyson, neu nid yw'n ataliad digonol**. Gwnaed cyfeiriadau dro ar ôl tro at gosbau isel, gweithredu anaml, a sefyllfaoedd lle mae'n "rhatach llygru na chydymffurfio," gan danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd a chanlyniadau amgylcheddol.

**Thema 2: Llygredd carthion a gorlifoedd storm**
Tynnodd ymatebwyr sylw yn gyson at **ollyngiadau carthffosiaeth, gorlifoedd storm a CSOs fel methiannau canolog y system bresennol**. Mae llawer yn disgrifio'r rhain fel materion arferol yn hytrach nag eithriadol, gan alw am **ddiffiniadau cyfreithiol llymach, targedau lleihau, adroddiadau amser real, a newid o reoli llygredd i'w atal**.

**Thema 3: Deddfwriaeth dameidiog, gymhleth sydd wedi dyddio**
Pryder a nodwyd dro ar ôl tro oedd bod deddfwriaeth sy'n ymwneud â dŵr yng Nghymru yn dameidiog, yn gorgyffwrdd ac yn anodd mynd i'r afael â hi, ar ôl esblygu'n dameidiog dros ddegawdau. Mae'r **cymhlethdod hwn yn gwanhau gwaith cyflawni, yn cuddio atebolrwydd, ac yn arafu cynnydd,** gyda galwadau dro ar ôl tro am gydgrynhoi, symleiddio a moderneiddio.

**Cwestiwn 9:** A ddylid ymgorffori canlyniadau iechyd y cyhoedd ac atebion sy'n seiliedig ar natur mewn deddfwriaeth dŵr yn y dyfodol?

Roedd cefnogaeth eang ymhlith ymatebwyr i ymgorffori canlyniadau iechyd y cyhoedd ac atebion sy'n seiliedig ar natur mewn deddfwriaeth dŵr yn y dyfodol. Teimlwyd y dylai iechyd y cyhoedd fod yn ganolog i unrhyw ddeddfwriaeth dŵr yn y dyfodol, gan y byddai hyn yn arwain at ddŵr yfed glân a gwell amgylchedd dŵr. Mae'r prif themâu sy'n deillio o'r ymatebion wedi'u crynhoi isod.

**Thema 1: Cefnogaeth gref i ymgorffori iechyd y cyhoedd yn benodol mewn deddfwriaeth dŵr**
Roedd mwyafrif yr ymatebion yn **cefnogi'n benodol ymgorffori canlyniadau iechyd y cyhoedd mewn deddfwriaeth dŵr yn y dyfodol**. Fe wnaethant bwysleisio cysylltiadau uniongyrchol rhwng ansawdd dŵr, hamdden, salwch, llesiant,

a dod i gysylltiad â charthion neu bathogenau. Roedd sawl ymatebydd yn ystyried **iechyd y cyhoedd fel pwrpas craidd** yn hytrach na budd anuniongyrchol rheoleiddio amgylcheddol.

**Thema 2: Cefnogaeth i atebion sy'n seiliedig ar natur fel dulliau gweithredu craidd, nid rhai opsiynol**

Teimlwyd y **dylid ymgorffori Atebion sy'n seiliedig ar natur fel dull sylfaenol neu "ddewis cyntaf"** mewn deddfwriaeth. Roedd ymatebwyr yn teimlo bod nifer o fanteision i Atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys lleihau llygredd, enillion bioamrywiaeth, lliniaru llifogydd, a'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd, yn aml ochr yn ochr â seilwaith traddodiadol yn hytrach na chymryd ei le.

**Thema 3: Rhybudd na ddylai atebion sy'n seiliedig ar natur beri oedi o ran gorfodi na disodli cydymffurfedd**

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai Atebion sy'n seiliedig ar natur gael ei gamddefnyddio i gyfiawnhau gwaith gorfodi gwannach, peri oedi o ran gweithredu, neu gymryd lle cydymffurfedd rheoleiddiol angenrheidiol ac atebion peirianyddol. Maent yn pwysleisio y **dylai Atebion sy'n seiliedig ar natur ategu, nid disodli, gorfodi a seilwaith**.

**Cwestiwn 10:** Pa ddatblygiadau arloesol neu ddulliau gorfodi allai gryfhau cydymffurfedd ar gyfer dŵr gwastraff a draenio?

Nododd yr ymatebwyr nifer o fesurau yr oeddent yn teimlo a allai gryfhau cydymffurfedd ar gyfer dŵr gwastraff a draenio. Roedd cefnogaeth eang ar gyfer dulliau monitro gwell i gryfhau cydymffurfedd, camau gorfodi amserol a symud i ddull mwy ataliol yn hytrach nag adweithiol.

**Dull 1: Gorfodi cryfach a chosbau ystyrlon**

Roedd ymatebwyr yn glir y bydd cydymffurfedd ddim ond yn gwella os yw **gorfodi'n gredadwy, yn amserol ac yn ariannol boenus**. Roedd llawer yn credu bod y dull presennol yn caniatáu i lygredd barhau oherwydd bod dirwyon yn rhy isel, camau gorfodi'n araf, neu gosbau yn cael eu trin fel cost gwneud busnes. Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai mesurau gorfodi gynnwys cosbau awtomatig, sancsiynau cynyddol i droseddwyr ailadroddus, a chysylltu gorfodi â niwed amgylcheddol go iawn yn hytrach nag achosion o dorri gweithdrefnau.

**Dull 2: Monitro Amser Real, Tryloywder, ac Adroddiadau Cyhoeddus**

Cododd ymatebwyr yr angen am **fonitro gollyngiadau mewn amser real neu'n agos at amser real**, **ynghyd â mynediad cyhoeddus tryloyw i ddata**. Pwysleisiwyd bod monitro heb ganlyniadau yn aneffeithiol, ond y gall data agored, dangosfyrddau ac adroddiadau ar unwaith ailadeiladu ymddiriedaeth, galluogi gwaith craffu cymunedol, a sbarduno camau rheoleiddio cyflymach.

**Dull 3: Dulliau Ataliol a System Gyfan**

Roedd llawer o ymatebwyr o blaid symud i ffwrdd o orfodi adweithiol ar ôl i lygredd ddigwydd tuag at **reoleiddio ataliol, system gyfan**. Mae hyn yn cynnwys **sbardunau ymyrraeth cynharach**, rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg, integreiddio â chynllunio a datblygu, a **mynd i'r afael â phroblemau cyn i gysylltiad neu orlwytho** ddigwydd.

**Crynodeb o’r Ymatebion i Bennod 3:**
Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cytuno bod angen diwygio'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer dŵr yng Nghymru. Ymhlith y meysydd blaenoriaeth i'w hadolygu a nodwyd yn gyffredin roedd gorlifoedd storm, rheoleiddio dŵr gwastraff a draenio, llygredd maethynnau ac effeithiolrwydd mecanweithiau gorfodi. Nododd llawer o ymatebwyr y gall deddfwriaeth bresennol ganiatáu i lygredd gael ei reoli yn hytrach na'i atal, gan gyfrannu at gynnydd araf a llai o hyder gan y cyhoedd.

Roedd cefnogaeth gref i ymgorffori canlyniadau iechyd y cyhoedd yn benodol mewn deddfwriaeth dŵr yn y dyfodol, gydag ymatebwyr yn aml yn cysylltu llygredd carthion â salwch. Cafodd atebion sy'n seiliedig ar natur gefnogaeth eang fel rhan o ddull ataliol, yn enwedig ar gyfer rheoli dŵr wyneb a gwydnwch. Fodd bynnag, pwysleisiodd llawer o ymatebwyr y dylai atebion o'r fath ategu, yn hytrach na disodli, gwaith trin a gorfodi dŵr gwastraff effeithiol.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cefnogi arloesedd a gwaith monitro gwell i gryfhau cydymffurfedd, ar yr amod bod camau gorfodi amserol yn cyd-fynd â'r rhain. Codwyd pryderon am ddibyniaeth ar hunanfonitro heb waith gwirio annibynnol, gyda phwyslais yn cael ei roi ar fonitro yn arwain at ymyrraeth yn hytrach na thryloywder yn unig.

**Pennod 4: Cryfhau Rheoleiddio ac Atebolrwydd Dŵr Cymru**

Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi rheoleiddiwr annibynnol, sy'n canolbwyntio ar Gymru, a fyddai'n gyson â blaenoriaethau Cymru ac yn atebol yng Nghymru.

**Cwestiwn 11:** Yn amodol ar roi pwerau galluogi i Lywodraeth Cymru, ydych chi'n cytuno â'r cynnig i sefydlu rheoleiddiwr economaidd annibynnol newydd ar gyfer dŵr yng Nghymru?

Roedd ymatebwyr yn cefnogi'n gryf yr egwyddor o sefydlu rheoleiddiwr economaidd annibynnol i Gymru oherwydd roeddent yn teimlo y gallai hyn gysoni â blaenoriaethau Cymru yn well a chryfhau atebolrwydd. Mae'r prif themâu sy'n deillio o'r ymatebion wedi'u crynhoi isod.

**Thema 1: Atebolrwydd, gorfodi a sicrhau cysondeb â blaenoriaethau Cymru**
Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i sefydlu rheoleiddiwr annibynnol ac yn teimlo y byddai hyn yn arwain at atatebolrwydd cryfach, camau gorfodi cliriach, a thriniaeth decach ar draws y sector dŵr. Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai hefyd yn cryfhau cysondeb rhwng rheoleiddio economaidd, canlyniadau amgylcheddol, a blaenoriaethau Cymru. Fodd bynnag, nodwyd bod angen pwerau i gefnogi'r rheoleiddiwr os oes methiant.

**Thema 2: Tryloywder ac Adroddiadau Cyhoeddus**
Roedd yr ymatebwyr hefyd o'r farn y byddai rheoleiddiwr annibynnol i Gymru yn caniatáu proses benderfynu dryloyw ac adroddiadau ar berfformiad a fyddai'n cyd-fynd â blaenoriaethau Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn darparu atebolrwydd a chanlyniadau cliriach sy'n effeithio ar bobl Cymru.

**Cwestiwn 12:** Pa egwyddorion llywodraethiant ddylai fod yn sail i ddyluniad rheoleiddiwr economaidd Cymru, a sut dylai ei ddull goruchwylio gydbwyso goruchwyliaeth â hyblygrwydd ar gyfer arloesi?

Daeth annibyniaeth reoleiddiol i'r amlwg fel yr egwyddor llywodraethiant allweddol a nodwyd gan ymatebwyr. Dywedodd yr ymatebwyr y dylai rheoleiddiwr economaidd Cymru fod yn annibynnol ar ddylanwad gwleidyddol a diwydiant, gyda phrosesau gwneud penderfyniadau tryloyw ac adrodd agored. Ystyriwyd annibyniaeth yn hanfodol i hygrededd, atebolrwydd ac ymddiriedaeth y cyhoedd.

**Cwestiwn 13:** Pe na bai pwerau galluogi'n cael eu rhoi gan Lywodraeth y DU, pa newidiadau y byddai eu hangen i'r cynlluniau a gynigir gan Lywodraeth y DU?

Nododd yr ymatebion, pe na bai pwerau galluogi'n cael eu rhoi gan Lywodraeth y DU, y byddai angen mesurau ychwanegol i sicrhau bod blaenoriaethau Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol o fewn y fframwaith rheoleiddio. Mae'r prif themâu wedi'u crynhoi isod.

**Thema 1: Diogelu blaenoriaethau Cymru o fewn fframweithiau rheoleiddio'r DU**
Dadleuodd llawer o ymatebwyr, os nad yw pwerau galluogi yn cael eu rhoi, **bod yn rhaid ail-lunio rheoleiddio ledled y DU yn ffurfiol i ddiogelu amcanion amgylcheddol Cymru, blaenoriaethau iechyd y cyhoedd, a nodweddion**

**unigryw polisi**. Gwnaethant bwysleisio'r angen am ddyletswyddau rhwymol, **cyfeiriad strategol penodol i Gymru,** a mesurau diogelu rhag penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar Loegr.

**Thema 2: Atebolrwydd, tryloywder, ac adroddiadau sy'n benodol i Gymru**
Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr **angen am atebolrwydd cliriach ac adroddiadau tryloyw, wedi'u dadgyfuno** ar gyfer Cymru. Codwyd pryderon bod materion Cymru mewn perygl o gael eu cuddio o fewn strwythurau Cymru a Lloegr oni bai bod data, llwybrau adrodd a mecanweithiau uwchgyfeirio penodol i Gymru yn cael eu mandadu.

**Crynodeb o'r Ymatebion i Bennod 4:**
Roedd llawer o ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor o sefydlu rheoleiddiwr economaidd annibynnol i Gymru, yn enwedig lle gallai hyn gysoni â blaenoriaethau Cymru yn well a chryfhau atebolrwydd. Mynegodd eraill rybudd am gostau posibl, dyblygu a'r risg y gallai newid sefydliadol dynnu sylw oddi wrth gyflawni. Ar draws yr ymatebion, roedd cytundeb cyffredinol bod effeithiolrwydd rheoleiddio yn bwysicach na ffurf sefydliadol.

Tynnodd ymatebwyr sylw at egwyddorion llywodraethiant fel annibyniaeth, tryloywder, atebolrwydd a gallu gorfodi cryf. Yn gyffredinol, cefnogwyd hyblygrwydd ar gyfer arloesi, ar yr amod nad yw hyn yn gwanhau goruchwyliaeth pan fo risgiau amgylcheddol neu iechyd y cyhoedd yn bodoli.

Lle na fyddai pwerau galluogi yn cael eu rhoi o bosibl, nododd ymatebwyr yn gyson na fyddai dylanwad anffurfiol yn ddigonol. Cafwyd cefnogaeth i fecanweithiau ffurfiol i sicrhau mewnbwn Cymru mewn penderfyniadau buddsoddi, adroddiadau penodol i Gymru a mesurau diogelu i atal pryderon Cymru rhag cael eu colli o fewn fframweithiau ledled y DU.

## Pennod 5: Sicrhau Canlyniadau Gwell - Diwygio Rheoleiddio yng Nghymru

### **Cwestiwn 14:** Pa newidiadau i ymrwymiadau perfformiad a chymhellion cyflawni canlyniadau y dylid eu blaenoriaethu?

Nododd yr ymatebwyr nifer o flaenoriaethau ar gyfer ymrwymiadau perfformiad a chymhellion cyflawni canlyniadau. Mae'r themâu cryfaf wedi'u nodi isod.

**Thema 1: Rhoi terfyn ar ollyngiadau carthion a lleihau llygredd**
Byddai llawer o ymatebwyr yn **blaenoriaethu rhoi terfyn ar ollyngiadau carthion, lleihau'r defnydd o orlifoedd storm**, a **mynd i'r afael ag achosion o lygredd**. Mae'r ymatebion hyn yn ystyried llygredd carthion fel y methiant amgylcheddol mwyaf gweladwy a brys, gan alw am **ddim goddefgarwch, targedau lleihau rhwymol**, a chysylltiadau uniongyrchol rhwng perfformiad a chanlyniadau amgylcheddol go iawn.

**Thema 2: Metrigau amgylcheddol ac iechyd afonydd yn seiliedig ar ganlyniadau**
Dywedodd yr ymatebwyr y dylai ymrwymiadau perfformiad ganolbwyntio ar **ganlyniadau amgylcheddol mesuradwy** (e.e. iechyd afonydd, statws ecolegol, ansawdd dŵr) yn hytrach na chydymffurfio â phrosesau neu fetrigau gweithgarwch mewnol. Roedd y pwyslais ar yr hyn y gall pobl "ei weld a'i deimlo" mewn afonydd, arfordiroedd, a dyfroedd ymdrochi.

### **Cwestiwn 15:** Sut gellir gweithredu camau gorfodi a monitro digidol yn fforddiadwy i gwsmeriaid yng Nghymru, a pha gamau allai gryfhau hunanfonitro ymysg gweithredwyr ar yr un pryd â chynnal hyder mewn cydymffurfio?

Tynnodd yr ymatebion sylw at bwysigrwydd sicrhau bod trefniadau gorfodi a monitro digidol yn dryloyw, yn gadarn ac yn destun craffu annibynnol priodol. Mae'r themâu allweddol yn cael eu disgrifio yn fanylach isod.

**Thema 1: Tryloywder a mynediad cyhoeddus at ddata**
Roedd ymatebwyr yn glir bod hyder mewn cydymffurfio yn dibynnu ar **wybodaeth agored, hygyrch**. Roedd **dangosfyrddau cyhoeddus, adroddiadau clir, a chyhoeddi allbynnau monitro** yn cael eu crybwyll yn barhaus fel dulliau hanfodol i feithrin ymddiriedaeth a galluogi gwaith craffu.

**Thema 2: Archwilio a gwirio annibynnol**
Roedd pwyslais ar yr angen i **wiriadau annibynnol gefnogi hunanfonitro gweithredwyr**. Nododd ymatebwyr fod angen archwiliadau, hapwiriadau, a gwiriadau gan drydydd parti er **mwyn osgoi gorddibyniaeth ar ddata hunangofnodedig**.

### **Cwestiwn 16:** Sut dylid defnyddio sancsiynau sifil a phwerau gorfodi yn gymesur?

Pwysleisiodd yr ymatebwyr y dylai sancsiynau sifil a phwerau gorfodi gael eu defnyddio mewn ffordd sy'n adlewyrchu difrifoldeb effeithiau amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd, gan sicrhau bod diffyg cydymffurfedd parhaus yn denu canlyniadau cynyddol gryf. Ceir rhagor o fanylion ar y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg isod.

**Thema 1: Cymesuredd yn seiliedig ar niwed amgylcheddol a risg**
Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylid barnu cymesuredd yn bennaf ar **raddfa'r niwed amgylcheddol, y risg i iechyd y cyhoedd, a difrifoldeb yr effaith**. Dadleuodd nifer o ymatebwyr nad yw cydymffurfedd technegol yn unig yn ddigonol a bod yn rhaid i ganlyniadau i bobl ac ecosystemau fod yn ganolog.

**Thema 2: Uwchgyfeirio ar gyfer diffyg cydymffurfedd ailadroddus neu barhaus**
Pwysleisiodd ymatebwyr fod yn rhaid i orfodi gynnwys uwchgyfeirio ar gyfer troseddau a ailadroddir. Gwrthododd ymatebwyr yn glir y syniad bod cymesuredd yn golygu goddefgarwch neu ddibyniaeth dro ar ôl tro ar gynlluniau gwella heb ganlyniadau.

**Cwestiwn 17:** A ydych yn cytuno bod angen rheolaeth reoleiddio fwy llym ar daenu carthion a slwtsh tanciau carthion ar dir yng Nghymru?

• Ydw - Pam ydych chi'n meddwl bod angen tynhau goruchwyliaeth reoleiddiol? Rhowch dystiolaeth os oes modd
• Nac ydw - Pam nad ydych chi'n meddwl bod angen tynhau goruchwyliaeth reoleiddiol?

Roedd cefnogaeth gref ymhlith yr ymatebwyr i reolaeth reoleiddio fwy llym ar daenu carthion a slwtsh tanciau carthion ar dir yng Nghymru.

Roedd y Papur Gwyrdd yn nodi amrywiaeth o opsiynau i ymatebwyr eu hystyried. O'r rhain, integreiddio gweithgareddau slwtsh i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol oedd yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio fwyaf.

Dilynwyd hyn gan fodel deddfwriaethol a sicrwydd cyfunol, sy'n cynnwys Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol gyda dull cydnabyddiaeth ar sail perfformiad. Roedd rhai ymatebwyr yn ffafrio diweddaru'r fframwaith rheoleiddio presennol drwy fesurau rheoli ansawdd gwell, gan gynnwys diwygio'r defnydd o slwtsh mewn rheoliadau amaethyddol a defnyddio Cynllun Sicrwydd Biosolidau a gymeradwywyd gan reoleiddiwr.

Roedd eraill yn ffafrio gwelliannau anneddfwriaethol i safonau a sicrwydd, megis addasiadau i'r Cynllun Sicrwydd Biosolidau a'r Cod Ymarfer.

Yr opsiwn a ffefrir leiaf oedd peidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio presennol.

**Cwestiwn 18:** A ddylai treuliad anaerobig sy’n cael ei fwydo â chnydau fod yn ddarostyngedig i reoliadau a’i allbwn wedi ei reoli? A oes angen gweithredu i gryfhau’r rheoleiddio presennol ar dreuliad anaerobig sy’n cael ei fwydo o ffynonellau porthiant eraill neu i wella cydymffurfiaeth ac, os felly, sut y gellid cyflawni hyn yn effeithiol?

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cefnogi rheoleiddio treuliad anaerobig yn seiliedig ar risg, gan roi sylw arbennig i risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â storio, cludo a gwasgaru gweddillion treuliad anaerobig ar dir. Nodir y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg mewn ymatebion yn fanylach isod.

**Thema 1: Rheoleiddio treuliad anaerobig yn gymesur ac ar sail ar risg**
Dadleuodd llawer o ymatebwyr y dylid **rheoleiddio treuliad anaerobig (AD) yn ôl risg amgylcheddol yn hytrach na deunyddiau crai yn unig**. Maent yn pwysleisio cymesuredd, **canolbwyntio ymdrech reoleiddio ar safleoedd risg uchel, dalgylchoedd sensitif, graddfa gweithredu, a hanes cydymffurfio**, gan osgoi baich diangen ar systemau risg isel neu systemau sydd wedi'u rheoli'n dda.

**Thema 2: Rheoli gweddillion treuliad anaerobig a risgiau i ansawdd dŵr**
**Tynnwyd sylw at storio, cludo a gwasgaru gweddillion treuliad anaerobig ar dir fel prif ffynhonnell niwed amgylcheddol**. Cyfeirir dro ar ôl tro at ddŵr ffo o faethynnau, llwytho ffosfforws, halogiad dŵr daear, ac effeithiau ar afonydd, yn enwedig mewn dalgylchoedd sy'n sensitif i faethynnau ac o dan amodau hinsawdd gwlypach.

**Cwestiwn 19:** Ydych chi’n credu bod cael esemptiad gwastraff ar gyfer treuliad anaerobig yn gywir o ystyried y risgiau sy’n gysylltiedig â’r broses?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn nad yw'r esemptiadau gwastraff presennol ar gyfer treuliad anaerobig yn adlewyrchu'n ddigonol y risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r broses. Roedd ymatebion yn tynnu sylw at bryderon am yr effeithiau posibl ar ansawdd dŵr a chefnogaeth i ddull rheoleiddio sy'n fwy seiliedig ar risg. Nodir y themâu allweddol isod.

**Thema 1: Nid yw esemptiadau gwastraff eang yn gymesur â risg amgylcheddol**
Roedd ymatebwyr yn teimlo bod esemptiadau gwastraff cyfredol ar gyfer treuliad anaerobig (AD) yn rhy eang ac yn methu ag adlewyrchu'r risgiau amgylcheddol gwirioneddol sy'n gysylltiedig â hynny. **Roedd pryderon yn canolbwyntio ar lygredd maethynnau, effeithiau ar ansawdd dŵr, a niwed amgylcheddol cronnus**. Mae ymatebwyr yn aml yn nodi bod esemptiadau yn tanamcangyfrif graddfa AD modern a risgiau cysylltiedig.

**Thema 2: Cefnogaeth ar gyfer rheoleiddio neu drwyddedu yn seiliedig ar risg yn hytrach nag esemptiadau cyffredinol**
Thema gref a chyson oedd y ffafriaeth ar gyfer fframwaith rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg. Mae ymatebwyr yn awgrymu y dylai esemptiadau fod yn berthnasol i weithgareddau risg isel a ddiffinnir yn glir yn unig, gyda gweithrediadau risg uwch yn amodol ar drwyddedu amgylcheddol, gwaith monitro a gorfodi llawn.

**Cwestiwn 20:** A oes ffyrdd gwell o droi gweddillion treuliad anaerobig yn ddeunydd defnyddiol, gwerthfawr ar gyfer ei ddefnyddio ar dir? Beth yw’r rhain, a beth yw’r dystiolaeth sy’n dangos y gallai hyn leihau’r risg amgylcheddol gyffredinol sy’n gysylltiedig â’r dulliau presennol o ddefnyddio gweddillion treuliad anaerobig ar dir?

Nododd ymatebwyr nifer o ffyrdd y gellid rheoli a phrosesu gweddillion treuliad anaerobig i gefnogi ei ddefnyddio'n fuddiol ar dir gan leihau risgiau amgylcheddol. Mae'r themâu cryfaf wedi'u nodi isod.

**Thema 1: Rheoli maethynnau yn fanwl a gwasgaru wedi'i dargedu**
Dywedodd yr ymatebwyr fod **risgiau amgylcheddol o weddillion treuliad anaerobig yn deillio'n bennaf o sut a phryd mae'n cael ei wasgaru**, yn hytrach nag o weddillion y treuliad anaerobig ei hun. Maent yn pwysleisio **alinio cyfraddau gwasgaru, amseru a dulliau â galw cnydau, amodau pridd a chyfnodau tywydd i leihau dŵr ffo, trwytholchi ac allyriadau**. Nodir dro ar ôl tro bod gwasgaru manwl a chynllunio maethynnau fferm gyfan yn fesurau allweddol ar gyfer lleihau risg.

**Thema 2: Technolegau trin, gwahanu a phrosesu**
Awgrymodd yr ymatebwyr y **gellir troi gweddillion treuliad anaerobig yn ddeunydd defnyddiol, gwell drwy ei drin a'i brosesu**, yn enwedig ei wahanu'n ffracsiynau solet a hylif, ei sychu, creu pelenni, trin gwres neu dechnolegau adfer maethynnau. Dadleuodd ymatebwyr fod y dulliau hyn yn caniatáu proffiliau maethynnau mwy rhagweladwy, cludiant haws, a risg amgylcheddol is na gwasgaru deunydd heb ei drin.

**Crynodeb o'r Ymatebion i Bennod 5:**
Dangosodd ymatebion i Bennod 5 gefnogaeth eang i ddiwygio rheoleiddio i ganolbwyntio'n gliriach ar ganlyniadau amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd. Mynegodd llawer o ymatebwyr bryder bod fframweithiau perfformiad presennol yn rhoi gormod o bwyslais ar adrodd am brosesau a chydymffurfedd yn hytrach na gwelliant diriaethol. Roedd cytundeb cyffredinol y dylai ymrwymiadau perfformiad fod yn gliriach ac yn fwy heriol, gan uwchgyfeirio pan fo methiant yn cael ei ailadrodd neu y bo modd ei atal.

Roedd cefnogaeth eang i dechnolegau monitro a gorfodi digidol pan fônt yn cael eu gweithredu'n gymesur a'u targedu yn ôl risg. Fodd bynnag, mynegodd ymatebwyr bryder am or-ddibyniaeth ar hunanfonitro gweithredwyr heb oruchwyliaeth annibynnol a phwysleisiodd bwysigrwydd cysylltiadau clir rhwng monitro, gorfodi a thryloywder.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi rheolaeth reoleiddiol fwy llym dros wasgaru slwtsh carthion a gweddillion treuliad anaerobig ar dir, wedi'i ysgogi gan bryderon am lygredd maethynnau, effeithiau cronnus a halogion sy'n dod i'r amlwg. Roedd dulliau sy'n seiliedig ar EPR gyda chydnabyddiaeth ar sail perfformiad yn aml yn cael eu hystyried fel rhai sy'n cynnig cydbwysedd priodol rhwng cadernid a chymesuredd. Roedd ymatebwyr hefyd yn cefnogi adolygu rheoleiddio treuliad anaerobig ac esemptiadau presennol i sicrhau bod risgiau amgylcheddol yn cael eu rheoli'n briodol.

**Pennod 6: Sicrhau Llywodraethiant Cryf a Chyfrifol ar gyfer Cwmnïau Dŵr yng Nghymru**

Roedd pwyslais cyson ar yr angen i gryfhau llywodraethiant cwmnïau dŵr yng Nghymru a'r angen i sicrhau bod yr holl gwmnïau dŵr a defnyddwyr dŵr yn gweithredu mewn modd cyfrifol.

**Cwestiwn 21:** Pa fesurau fyddai'n cryfhau safonau llywodraethiant ac atebolrwydd uwch mewn cwmnïau dŵr yng Nghymru?

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at nifer o fesurau y gellid eu rhoi ar waith i gryfhau'r safonau y mae cwmnïau dŵr yn cael eu dal yn atebol iddynt ac i sicrhau bod uwch-reolwyr yn atebol. Nodir y mesurau allweddol a ddaeth i'r amlwg isod.

**Mesur 1: Atebolrwydd personol uwch-arweinwyr a byrddau**
Roedd ymatebwyr yn teimlo na fyddai llywodraethiant cwmnïau dŵr yng Nghymru yn gwella oni bai bod unigolion uwch a enwir a byrddau yn atebol yn bersonol am ganlyniadau amgylcheddol a gwasanaethau. Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr yr angen am **gyfrifoldeb cyfreithiol, atebolrwydd cyfarwyddwyr, a pherchnogaeth adnabyddadwy ar fethiannau**, yn enwedig mewn perthynas â llygredd ac iechyd asedau.

**Mesur 2: Cysylltu cyflogau, taliadau bonws a sancsiynau swyddogion gweithredol â pherfformiad amgylcheddol**
Thema dro ar ôl tro oedd y **dylai tâl, taliadau bonws a gwobrau fod yn gysylltiedig yn eu hanfod â chanlyniadau amgylcheddol**, gyda chyfyngiadau neu waharddiadau ar daliadau bonws yn ystod cyfnodau o fethiant. Mae ymatebwyr yn gweld cymhellion ariannol fel sbardun mawr ar gyfer newid ymddygiad.

**Cwestiwn 22:** Sut gall gofynion gwydnwch ariannol (e.e. lefelau cyfalaf gofynnol, bondiau amgylcheddol) gefnogi cynaliadwyedd, a pha egwyddorion ddylai lywio penderfyniadau ar fodelau perchnogaeth amgen?

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn gefnogol i ofynion gwydnwch ariannol, a gwnaethant dynnu sylw at fesurau fel lefelau cyfalaf gofynnol neu fondiau amgylcheddol, i alluogi buddsoddiad hirdymor a lleihau'r risg o gostau yn cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr. Nodir yr egwyddorion allweddol a ddaeth i'r amlwg isod.

**Egwyddor 1: Gwydnwch ariannol fel rhagofyniad ar gyfer buddsoddiad amgylcheddol**
Awgrymodd yr ymatebwyr bod **lefelau cyfalaf gofynnol a gofynion gwydnwch yn angenrheidiol** i sicrhau bod cwmnïau dŵr yn gallu ariannu gwaith cynnal a chadw, addasu i'r hinsawdd, atal llygredd, ac adnewyddu seilwaith tymor hir. **Mae gwendid ariannol yn gysylltiedig yn benodol â thanfuddsoddi a niwed amgylcheddol**.

**Egwyddor 2: Bondiau amgylcheddol fel mesurau diogelu, nid er mwyn cymryd lle**
Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylid defnyddio bondiau perfformiad neu amgylcheddol **fel offeryn i warantu cyllid cyweirio** pan fydd niwed yn digwydd.

Fodd bynnag, mae sawl un yn rhybuddio na **ddylai bondiau gyfreithloni llygredd** neu gael eu defnyddio ar gyfer “gwyrddgalchu” enw da.

**Crynodeb o'r Ymatebion i Bennod 6:**
Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi cryfhau safonau llywodraethiant ac atebolrwydd uwch mewn cwmnïau dŵr yng Nghymru. Gwnaeth llawer dynnu sylw at faterion amgylcheddol a gwasanaethau parhaus fel tystiolaeth nad yw'r trefniadau presennol yn dangos atebolrwydd arweinyddiaeth yn ddigonol. Roedd awgrymiadau cyffredin yn cynnwys cyfrifoldeb gweithredol cliriach, goruchwyliaeth gryfach gan y bwrdd o berfformiad amgylcheddol a gwell tryloywder wrth wneud penderfyniadau.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i ofynion gwydnwch ariannol, fel lefelau cyfalaf gofynnol neu fondiau amgylcheddol, i alluogi buddsoddiad hirdymor a lleihau'r risg o gostau yn cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr neu'r sector cyhoeddus. Roedd safbwyntiau ar fodelau perchnogaeth yn gymysg, ond cytunodd ymatebwyr yn fras bod rheoleiddio cryf, atebolrwydd a budd y cyhoedd yn bwysicach na strwythur perchnogaeth yn unig.

**Pennod 7: Adeiladu Seilwaith Dŵr Gwydn ac Asedau Dŵr Iach i Gymru**

**Cwestiwn 23:** Pa safonau gwydnwch sy'n seiliedig ar ganlyniadau fyddai fwyaf priodol i Gymru, a sut y gellir cryfhau mapio iechyd asedau a metrigau sy'n edrych tua'r dyfodol heb gostau anghymesur?

Roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol yn gefnogol i ddatblygu safonau gwydnwch sy'n seiliedig ar ganlyniadau, sy'n canolbwyntio ar berfformiad cyffredinol y system, ac yn pwysleisio y dylai canlyniadau gynnwys llai o lygredd, gwell ansawdd afonydd a dyfroedd ymdrochi, y gallu i wrthsefyll tywydd eithafol a gwasanaethau dibynadwy o dan straen hinsawdd. Nodir y themâu allweddol o'r ymatebion isod.

**Thema 1: Safonau sy'n seiliedig ar ganlyniadau**
Roedd yr ymatebwyr yn teimlo mai'r safonau allweddol y mae angen eu hystyried i adeiladu seilwaith dŵr gwydn yw **lleihau llygredd a charthion** a **meithrin gwydnwch** i newidiadau o ganlyniad i newid hinsawdd. Gwnaeth yr ymatebwyr hefyd nodi y byddai defnyddio dull sy'n seiliedig ar systemau yn helpu i flaenoriaethu gwaith cynllunio asedau a seilwaith, ac roeddent yn teimlo byddai hyn yn caniatáu i **waith gael ei gynllunio fesul cam** .

**Thema 2: Cost diffyg gweithredu yn erbyn "cost anghymesur"**
Pwysleisiodd yr ymatebwyr y dylid cynllunio safonau gwydnwch mewn ffordd sy'n osgoi costau anghymesur.

**Thema 3: Safoni data a thryloywder**
Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r defnydd o **setiau data safonedig, metrigau a rennir, ac adroddiadau tryloyw** ledled Cymru (ac yn aml Cymru a Lloegr). Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd gwell defnydd o ddata presennol, yn hytrach na chasglu data dyblyg, a ystyriwyd yn allweddol i fforddiadwyedd.

**Cwestiwn 24:** Pa gamau ddylai wella capasiti'r gadwyn gyflenwi a'r gweithlu ar gyfer darparu seilwaith yn y dyfodol?

Nododd ymatebwyr gapasiti'r gadwyn gyflenwi a'r gweithlu fel ffactorau allweddol wrth ddarparu seilwaith dŵr yn y dyfodol a gwnaethant dynnu sylw at bwysigrwydd gwaith cynllunio hirdymor, datblygu sgiliau a diwygio caffael. Ceir rhagor o fanylion ar y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg isod.

**Thema 1: Sicrwydd a gweledededd buddsoddiad tymor hir**
Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod **piblinellau buddsoddi hirdymor, rhagweladwy yn sylfaenol i feithrin capasiti'r gweithlu** a galluogi cyflenwyr i **fuddsoddi mewn sgiliau, offer a'r gallu i gyflawni**. Roedd ymatebwyr o'r farn y gall cylchoedd cyllido tymor byr neu ansicr greu amodau "ffynnu a ffaelu" sy'n tanseilio cadw, fforddiadwyedd a hyder cyflawni.

**Thema 2: Datblygu sgiliau, prentisiaethau a llwybrau addysg**
Roedd ymatebwyr yn teimlo y **dylid rhoi pwyslais ar sgiliau technegol, peirianegol, digidol ac amgylcheddol**, gyda phryder bod llwybrau addysg a hyfforddiant tameidiog yn cyfyngu ar dwf a gwydnwch y gweithlu. Fe wnaethant

hefyd nodi'r angen am ffynonellau sgiliau cydgysylltiedig sy'n rhychwantu ysgolion, colegau, prifysgolion, prentisiaethau a hyfforddiant yn y gwaith.

**Thema 3: Diwygio caffael gan ganolbwyntio ar ansawdd a gwerth hirdymor**
Roedd anfodlonrwydd gyda modelau caffael sy'n blaenoriaethu'r gost isaf dros ansawdd, perfformiad cyflawni a chynaliadwyedd. Roedd llawer o ymatebwyr yn dadlau bod **canolbwyntio ar ddull cost isel yn gwanhau cadwyni cyflenwi, yn atal arloesedd** ac yn ysgogi aneffeithlonrwydd dros amser.

**Crynodeb o'r Ymatebion i Bennod 7:**
Yn gyffredinol, cefnogodd ymatebwyr ddatblygu safonau gwydnwch sy'n seiliedig ar ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar berfformiad cyffredinol y system. Ymhlith y canlyniadau a ddymunir roedd llai o lygredd, gwell ansawdd afonydd a dyfroedd ymdrochi, y gallu i wrthsefyll tywydd eithafol a gwasanaethau dibynadwy o dan straen hinsawdd.

Roedd cefnogaeth i gryfhau gwaith mapio iechyd asedau a metrigau blaengar i rag-weld ac atal methiant. Fodd bynnag, rhybuddiodd llawer o ymatebwyr yn erbyn monitro cyffredinol neu ddulliau rhy gymhleth a allai beri costau anghymesur. Roedd blaenoriaethu ar sail risg a gwell defnydd o ddata presennol yn cael eu hystyried yn gyffredinol yn fwy effeithiol.

Nodwyd capasiti'r gadwyn gyflenwi a'r gweithlu fel cyfyngiadau allweddol ar gyflawni. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd sicrwydd buddsoddi hirdymor, datblygu sgiliau, prentisiaethau a chefnogi cyflenwyr o Gymru.

**Pennod 8: Sicrhau Newid - Y Cyfnod Pontio a Gweithredu yng Nghymru**

**Cwestiwn 25:** Beth ddylai fod y blaenoriaethau allweddol yng nghynllun pontio Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio'r sector dŵr er mwyn darparu eglurder a sefydlogrwydd?

Pwysleisiodd ymatebwyr y dylid cynllunio a gweithredu'r cyfnod pontio yn ofalus i ddarparu eglurder, sefydlogrwydd a pharhad. Nodir y blaenoriaethau allweddol a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion isod.

**Blaenoriaeth 1: Eglurder o ran rolau, sefydlogrwydd a pharhad**
Dadleuodd ymatebwyr yn gyson y dylai'r cynllun pontio ddarparu **eglurder o ran rolau gydag amserlen glir o gerrig milltir**. Roedden nhw'n teimlo bod cynllunio tymor byr neu ansicrwydd yn creu ansefydlogrwydd, a bylchau mewn rheoleiddio a gorfodi. Teimlai ymatebwyr bod angen dyrannu cyfrifoldebau'n glir rhwng Llywodraeth Cymru, rheoleiddwyr, cyrff cynllunio a chwmnïau dŵr

**Blaenoriaeth 2: Cyfathrebu tryloyw â rhanddeiliaid a'r cyhoedd**
Roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen cyfathrebu clir rhwng y Llywodraeth, rhanddeiliaid a'r cyhoedd dros yr hyn sy'n newid a'r rhesymau dros y newid.

**Cwestiwn 26:** Sut gall mecanweithiau llywodraethiant a chynghori sicrhau ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod pontio, ac a fyddai goruchwyliaeth annibynnol yn ychwanegu gwerth? Os felly, ar ba ffurf y dylai fod?

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd mecanweithiau llywodraethiant a chynghori sy'n darparu gwaith ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid a gwaith craffu annibynnol yn ystod y cyfnod pontio. Mae'r prif themâu sy’n deillio o’r ymatebion wedi'u crynhoi isod.

**Thema 1: Angen goruchwyliaeth annibynnol yn ystod y cyfnod pontio**
Roedd cefnogaeth gref i **oruchwyliaeth wirioneddol annibynnol** yn ystod y cyfnod pontio. Roedd ymatebwyr yn teimlo bod hyn yn angenrheidiol i ddarparu **hygrededd, tryloywder, ennyn hyder y cyhoedd, a rhoi sicrwydd** bod diwygio yn cyflawni canlyniadau amgylcheddol ac er budd y cyhoedd yn hytrach na chyfleustra sefydliadol. Pwysleisiodd nifer annibyniaeth o'r llywodraeth a'r diwydiant, ac y dylai goruchwyliaeth barhau y tu hwnt i'r cyfnod pontio.

**Thema 2: Gwaith ymgysylltu strwythuredig, parhaus a dylanwadol â rhanddeiliaid**
Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod yn rhaid i waith **ymgysylltu â rhanddeiliaid fod yn barhaus, yn strwythuredig ac wedi'i gysylltu yn ystyrlon â'r broses o wneud penderfyniadau**. Roedd ymatebwyr yn feirniadol o ymgyngoriadau untro a gwnaethant dynnu sylw at bwysigrwydd mecanweithiau ymgysylltu effeithiol, gan gynnwys cylchoedd gwaith clir, fforymau ffurfiol, allbynnau cyhoeddedig, a dylanwad amlwg ar ganlyniadau.

**Cwestiwn 27**: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y cynigion yn y Papur Gwyrdd hwn ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y

Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Ydych chi’n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi’n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y cynigion yn cyflwyno cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn gadarnhaol, yn enwedig pan fo cyfathrebu dwyieithog, gwaith ymgysylltu a darparu gwasanaethau wedi'u hymgorffori o'r cychwyn cyntaf. Pwysleisiodd yr ymatebwyr y dylai darpariaeth ddwyieithog fod yn nodwedd sylfaenol o weithredu i gefnogi tegwch, hygyrchedd a normaleiddio'r Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus. Fe wnaethant hefyd dynnu sylw at bwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg yn rhagweithiol drwy gydol y gwaith cyflawni, gan nodi heb integreiddio bwriadol bod perygl y gallai systemau a phrosesau newydd greu anfantais anfwriadol i siaradwyr Cymraeg.

**Cwestiwn 28:** Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y cynigion yn y Papur Gwyrdd hwn er mwyn gwneud y canlynol:
• cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
• liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Pwysleisiodd yr ymatebwyr y dylai'r Gymraeg gael ei hymgorffori o'r cychwyn cyntaf o ran llywodraethiant, strwythurau rheoleiddio, ymgyngoriadau, ac yn enwedig systemau digidol. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cynllunio ar gyfer y “Gymraeg o'r cychwyn”, lle mae gofynion o ran y Gymraeg yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf yn hytrach nag yn cael eu hychwanegu'n ôl-weithredol, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ac osgoi anfantais anfwriadol i gymunedau Cymraeg.

**Crynodeb o'r Ymatebion i Bennod 8:**
Pwysleisiodd ymatebwyr yn gyson y dylai trefniadau pontio flaenoriaethu eglurder, parhad a chyflawni. Codwyd pryderon am y risg o ddiwygio yn gwanhau gwaith gorfodi neu'n peri oedi o ran gweithredu os nad yw'n cael ei reoli'n ofalus. Nodwyd bod amserlenni clir, cyfrifoldebau diffiniedig a chamau cyflawni cynnar yn flaenoriaethau pwysig.

Roedd cefnogaeth eang i fecanweithiau llywodraethiant a chynghori sy'n cefnogi gwaith ymgysylltu ystyrlon yn ystod y cyfnod pontio. Roedd llawer o ymatebwyr yn cefnogi goruchwyliaeth annibynnol â therfyn amser pan fo'n darparu gwaith craffu ac yn cynnal momentwm, ar yr amod bod trefniadau'n parhau i fod â ffocws ac yn gymesur.

**Cwestiynau o ran yr Effaith ar y Gymraeg**
Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y cynigion yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, yn enwedig pan fo cyfathrebu dwyieithog, gwaith ymgysylltu a darparu gwasanaethau wedi'u hymgorffori o'r cychwyn cyntaf. Nodwyd bod angen trin y Gymraeg fel iaith waith yn hytrach nag ychwanegiad. Roedd pryderon yn canolbwyntio ar y potensial ar gyfer canoli, platfformau digidol neu drefniadau trawsffiniol i leihau mynediad at wasanaethau Cymraeg os nad ydynt wedi'u cynllunio'n ofalus. Nododd ymatebwyr gyfleoedd i liniaru risgiau drwy safonau

clir, gallu'r gweithlu, darpariaeth ddigidol ddwyieithog a gwaith ymgysylltu sy'n seiliedig ar leoedd.